Papur Testun Rhif 16 Trafnidiaeth - Crynodeb

Cyflwyniad

Mae cyswllt agos rhwng cynllunio a datblygu defnydd tir â thrafnidiaeth. Gall lleoliad datblygiad gael dylanwad arwyddocaol ar ddewisiadau trafnidiaeth pobl a'r ffordd y byddant yn mynd o gwmpas eu bywydau bob dydd.

Cyd-destun

Gall y CDLl nodi lleoliadau cynaliadwy i'w datblygu a gall hefyd reoli lleoliad, gosodiad a dyluniad y datblygiad er mwyn ceisio cyflawni system drafnidiaeth integredig. Mae gwella'r system drafnidiaeth bresennol nid yn unig yn gallu hwyluso datblygiad newydd ond hefyd gall ddod â manteision i breswylwyr presennol, twristiaid a busnesau. Rhai o brif agweddau system drafnidiaeth fodern, effeithlon ac integredig yw:

- Rhoi mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau i bob rhan o'r gymdeithas
- Gwella effeithlonrwydd i fusnesau gan gynnwys symud staff, nwyddau a gwasanaethau
- Edrych ar ddewisiadau heblaw am ddefnyddio ceir preifat sy'n iachach ac yn rhatach
- Gostwng allyriadau carbon i geisio mynd i'r afael a'r newid yn yr hinsawdd

Oherwydd lleoliad is-ranbarthol Sir y Fflint ar y porth rhwng Gogledd-ddwyrain Cymru ac is-ranbarth Gorllewin Swydd Caer / Cilgwri / Glannau Mersi, mae'r system drafnidiaeth yn gymhleth ac o dan bwysau oherwydd lefelau cymudo uchel i mewn ac allan o Sir y Fflint, yn ogystal â siwrneiau trwodd. Er hynny, mae llawer o arian yn cael ei fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth i hwyluso datblygiad y Parth Menter a Glannau Dyfrdwy ac yn arbennig y datblygiad cymysg mawr ar safle Porth y Gogledd. Mae hyn yn cyferbynnu'n gryf â chefn gwlad gorllewin a gogledd y Sir lle mae mynediad at wasanaethau, cyfleusterau a gwaith yn broblem, nid oherwydd tagfeydd, ond oherwydd y diffyg dewisiadau hyfyw heblaw am geir preifat, o ran cynhwysiant cymdeithasol.

Rôl y Cynllun

Un o amcanion allweddol y Cynllun fydd cynorthwyo i ddarparu system drafnidiaeth integredig gynaliadwy lle mae gwahanol ffyrdd o deithio h.y. cerdded, beicio, bws, trên a char, yn gweithio gyda'i gilydd mewn modd effeithlon a hygyrch. I ddarparu hyn bydd angen cydbwysedd o gynigion a pholisïau sy'n anelu at:

- Leoli'r datblygiadau hynny sy'n cynhyrchu galw sylweddol am deithio h.y. tai, swyddi, manwerthu a thwristiaeth yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy
- Sicrhau fod datblygiadau newydd yn dod â gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith trafnidiaeth presennol
- Gwneud gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus
- Dylunio datblygiad newydd mewn modd sy'n hwyluso cerdded a beicio fel dewisiadau eraill heblaw am ddefnyddio ceir preifat
- Diogelu tir i ddarparu cynlluniau trafnidiaeth penodol neu welliannau
- Sicrhau lefelau priodol o feysydd parcio mewn datblygiadau newydd

Ni all y CDLl fynd i'r afael â phobl un problem trafnidiaeth gan mai dim ond polisïau a chynigion sy'n berthnasol i'r datblygiad a'r defnydd tir y gallant eu cynnwys. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio'r system drafnidiaeth ar lefel genedlaethol, Taith ar lefel ranbarthol a'r Cyngor ar lefel

leol. Er hynny, rhaid i'r strategaeth eang, y polisïau a'r cynigion yn y Cynllun gyd-fynd â chynlluniau, rhaglenni a strategaethau'r cyrff hyn yn ogystal â rhai'r gweithredwyr trafnidiaeth megis cwmnïau bysiau a threnau. Gan hynny rhaid i'r Cynllun eistedd yn gyfforddus o fewn polisi ehangach a chyd-destun gweithredol a chymryd i ystyriaeth dogfennau allweddol megis Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Rhaid i'r Cyngor hefyd roi ystyriaeth i flaenoriaethau a chamau gweithredu'r Strategaeth Gymunedol.

Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Allweddol

- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2008)
- Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru)
- Polisi Cynllunio Cymru
- TAN18 Trafnidiaeth
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru (Taith 2009)
- Astudiaeth Trafnidiaeth Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWBATS)

Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

Cerdded a Beicio

- Sicrhau cyfleoedd i gerdded a beicio i mewn ac allan o ddatblygiadau newydd
- Ymestyn llwybrau beicio a darparu cysylltiadau rhwng cymunedau a llwybrau hir
- Creu seilwaith cerdded a beicio diogel, atyniadol a chyfleus i annog beicio fel rhan o'r siwrnai i'r gwaith ac nid at ddibenion hamdden yn unig.
- Cydnabod manteision cerdded a beicio i iechyd a lles

Bysiau a Threnau

- Gwell cysylltiadau i ganolfannau swyddi allweddol
- Annog cyfleusterau 'parcio a theithio' lle bo hynny'n briodol
- Gwell cysylltiadau rhwng bysiau a threnau
- Gwella'r rhwydwaith trenau (Wrecsam – Bidston ac arfordir Gogledd Cymru) ar gyfer siwrneiau lleol a'r posibilrwydd o greu gorsafoedd newydd mewn lleoliadau strategol
- Gwell cyfleusterau cludo nwyddau ar drenau

Ffyrdd a Seilwaith Arall

- Gwella'r seilwaith ffyrdd presennol i fynd i'r afael ag ardaloedd problemus o ran lle
- Dylunio a rheoli ffyrdd i ostwng cyflymder, gwella diogelwch a lleihau tagfeydd
- Ystyried rôl Dociau Mostyn ac Afon Dyfrydwy fel coridor trafnidiaeth
- Digonolrwydd meysydd parcio lorïau ar hyd coridorau'r A55 a'r A494
- Diogelu gweithrediad parhaus Maes Awyr Penarlâg.
- Adolygu cynlluniau gwella ffyrdd presennol a nodi unrhyw gynlluniau newydd

Polisïau / Cynigion Defnydd Tir Posibl

Roedd y CDU yn cynnwys 24 o bolisïau a chynigion yn y bennod 'Mynediad a Chyfathrebiadau'. Mae nifer o'r rhain yn bolisïau manwl nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, os o gwbl. Yn aml iawn mae canllaw ar gael mewn rhannau eraill o ddogfennau a gyhoeddwyd. Yn dilyn asesiad o bolisïau'r CDU cynigir fod y polisïau a'r cynigion allweddol yn ymwneud yn fras â:

- Dyrannu defnyddiau sy'n cynhyrchu traffig sylweddol mewn ardaloedd sy'n hygyrch i amryw o ddulliau teithio
- Dylunio datblygiad mewn modd sy'n hwyluso cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Gosod safonau parcio gofynnol gyda lefelau parcio is mewn lleoliadau hygyrch
- Defnyddio rhwymedigaethau cynllunio neu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i ddarparu gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth.
- Diogelu tir i hwyluso seilwaith trafnidiaeth newydd neu wella'r un presennol

- Diogelu hen reilffyrdd er mwyn darparu coridorau trafnidiaeth i'r dyfodol